# CYMDEITHAS DEFAID MYNYDD CYMREIG – ADRAN FYNYDD

Mae'r gymdeithas wedi digalonni i golli ein Cadeiryddes Beryl eleni yn ogystal â'i mab Dyfed. Roedd y ddau mor driw i'r gymdeithas a diolchwn iddynt am eu holl waith dros y blynyddoedd. Dyma deyrnged benigamp iddynt gan Rhian (merch Beryl a chwaer Dyfed) sy'n crisialu eu perthynas a'u llwyddiannau gyda bridio defaid ac amaethu, bydd colled enfawr ar eu hol**.**

"Defaid heb amheuaeth oedd cariad cyntaf y ddau, yn arbennig y ddafad fynydd Gymreig a'r ddafad Benfrith yn ail agos, agos. Byddai'r ddau yn dod yn fyw wrth drafod dafad a Dyfed yn arbennig adeg tymor gwerthu'r m'ogied a seli hyrddod yr Hydref. Yn wir byddai'r ddau yn dweud yn aml bod defaid yn neisiach na phobl! Pan fyddai bobl eraill yn gwario ar beiriannau neu wyliau - dileit mam a Dyfed oedd gwario ar hyrddod! Dim bod y gwario hwnnw yn gweithio bob tro - gambl llwyr yn aml ac elfen fawr o lwc! Ond roedd yna buzz yn yr ymdrech. Roedd gan Dyfed gof anhygoel am fanylion bob amser ac yn arbennig o ran llinach y prif ddiadelloedd yn y Defaid Mynydd. Roedd ganddo index llawn yn ei ben am y prif hyrddod oedd wedi eu gwerthu yn y prif seli, y prisiau, pwy oedd wedi eu prynu a phwy oedd y collwyr. Pa hyrddod oedd yn blant, yn wyrion ac yn or wyrion i ryw hwrdd arbennig a gallai siarad ar y pwnc am oriau gyda'r rheiny oedd o'r un anian a fe ac yn gwirioni'r un fath!

Roedd y ddau yn fridwyr wrth reddf a'u nod bob amser oedd magu stoc o'r safon uchaf ac yn meddu ar lygad dda na ellir ei brynu na'i ddysgu i neb. Dyna oedd ffermio iddyn nhw yn hytrach na busnes. Byddai Mam yn dweud yn aml pam y byddet ti yn mynd i'r drafferth o weithio'n galed bob dydd i fagu rhywbeth sâl a hwnnw ar ben hynny'n rhywbeth hyll! Roedd yn ddau yn uchel eu parch a Mam oedd Cadeiryddes bresennol y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig, yr unig fenyw i gyflawni'r swydd ac wedi ei gwneud yn aelod oes o'r Defaid Penfrith yn ddiweddar.

Roedd y ddau wedi buddsoddi arian, angerdd ac oriau maeth yn adeiladu ar ac yn gwella'r ddiadell. Mam ddaeth a choron driphlyg y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig i Geredigion am y tro cyntaf yn 1988 pan gipiodd brif wobrau'r Gymdeithas yn y gystadleuaeth ddiadelloedd rhyng- sirol. Gan ennill Cwpan Coffa Pierce Owen am y ddiadell orau yn y pum sir (Arfon, Dinbych, Maldwyn, Meirion a Cheredigion) a tharian Berthddu am y defaid benyw gorau, a tharian Farmers Marts am yr hesbinod gorau. Dyma eto oedd y tro cyntaf i ferch ennill. Roedd yna ysfa yn Mam i brofi ei bod gystal ag unrhyw ddyn yn amaethu ac am fagu dafad a'r ysfa wedyn i fod hyd yn oed yn well a bod ymysg y gorau. Cafodd Mam a Dyfed gyfle i feirniadu tipyn ar hyd y blynyddoedd yn cynnwys y Defaid Mynydd Cymreig yn y Sioe Frenhinol a thynnwyd y llun o'r ddau sydd ar y daflen pan oedd Dyfed yn beirniadu yn 2017 a chafodd Mam y fraint o feirniadu'r defaid penfrith hefyd.

Y fferm yng Nglanrafon oedd canolbwynt eu byd. Roedd y ddau yn tu hwnt o ofalgar ac yn arbennig felly adeg tymor wyna. Roedd rhaid cadw pob dim oedd a chwythiad ynddo yn fyw o'r oen bach mynydd lleia wele chi i eraill oedd yn cario rhyw nam neu'i gilydd. Mam yn tiwbio ambell i oen gwan am wythnosau ddydd a nos. Rhan o fy ngorchwylion dyddiol erbyn hyn ydy gofalu am Men a Gwen, dwy ddafad swci 15 oed yr oedd Mam wedi mynnu eu cadw wrth ymyl tŷ, dim un wedi magu'r un oen ond wedi bwyta'r bwyd gorau o'r dechrau.



Mae'n anodd credu bod dau a fu mor ddiwyd ac mor graff eu meddwl ddim gyda ni bellach. Fe fydd Dad a fi yn gweld eisiau'r ddau bob dydd a bydd Glanrafon fyth yr un fath. Er mae gwaddol ac eneidiau Mam a Dyfed yno ym mhob twll a chornel ac mae hynny'n gysur ac yn gyllell trwy'r galon ar yr un pryd."